Department for Transport

Gan yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol **Lilian Greenwood AS**

Great Minster House
33 Horseferry Road
Llundain
SW1P 4DR

Rhif Ffôn: 0300 330 3000
E-Bost: lilian.greenwood@dft.gov.uk

Gwefan: www.gov.uk/dft

Ein Cyf: MC/00030389
Eich Cyf: ER

Y Cynghorydd Beca Roberts
Cadeirydd Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

19 Chwefror 2025

Annwyl Gynghorydd Roberts,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch trwyddedau gyrru graddedig. Rwyf yn ymateb i chi fel y Gweinidog dros Ddyfodol Ffyrdd.

Hoffwn ei gwneud yn glir bod gwella diogelwch y ffordd yn un o flaenoriaethau uchaf fy Adran. Mae anafiadau a marwolaethau yn sgil gwrthdrawiadau ffordd sy'n cael eu hachosi gan yrru, yn annerbyniol, a bydd y Llywodraeth hon yn gweithio'n galed i atal y trasiedïau hyn i holl ddefnyddwyr y ffordd.

Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos bod nifer y marwolaethau ymysg gyrwyr ceir 17-24 mlwydd oed ar ffyrdd Prydain yn cwympo. Mae'r Adran hon wedi gweld gostyngiad yn nifer y gyrwyr 17-24 mlwydd oed sy'n cael eu lladd o 448 yn 1990, i 158 yn 2010, ac i 90 yn 2023. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth hon yn credu na ddylem fodloni ar hyn, yn enwedig oherwydd, o ran y boblogaeth a nifer y milltiroedd a yrrir, mai pobl ifanc 17-24 mlwydd oed, yn benodol dynion ifanc, sy'n parhau i fod yn un o'r grwpiau gyda'r risg uchaf o farwolaethau fel gyrwyr ceir a theithwyr mewn ceir.

Er nad ydym yn ystyried Trwyddedau Gyrru Graddedig, rydym yn llwyr gydnabod bod pobl ifanc yn ddioddefwyr digwyddiadau trasig ar ein ffyrdd ar lefel anghymesur, ac rydym yn edrych ar opsiynau i ymdrin â'r rhesymau am hyn, heb fynd ati i gosbi gyrwyr ifanc mewn ffordd annheg.

Rwyf am bwysleisio bod y Llywodraeth hon yn trin diogelwch y ffordd yn gwbl ddifrifol, ac rydym wedi ymrwymo i leihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd a'u hanafu ar ein ffyrdd.

Mae fy Adran yn datblygu ein strategaeth diogelwch ffyrdd a bydd yn cyflwyno rhagor o fanylion yn y man.

Dymuniadau gorau,



**LILIAN GREENWOOD AS**

**GWEINIDOG DROS DDYFODOL FFYRDD**